Un Llais Cymru
One Voice Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CLlLC • WLGA

# Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth

## 1. Y Partïon

1.1 Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn rhwng Gweinidogion Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac Un Llais Cymru (gyda'i gilydd, "y Partïon").

1.2 Wrth gytuno i'r trefniadau sy'n cael eu disgrifio yn y Memorandwm hwn mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac Un Llais Cymru yn eu tro yn cynrychioli prif gynghorau a chynghorau tref a chymuned Cymru.

## 2. Diben

2.1 Mae'r Memorandwm yn gosod ffordd deg a chyson o weithio ar draws Cymru parthed y ffioedd sy'n cael eu codi gan lywodraeth leol ar gyfer claddu ac amlosgi plant.

2.2 Paratowyd y Memorandwm mewn partneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru, sy'n goruchwylio'r polisi strategol a'r fframwaith ariannu mewn perthynas â llywodraeth leol yng Nghymru, ac awdurdodau claddu llywodraeth leol[1], sy'n darparu ac yn cynnal mynwentydd ac amlosgfeydd Cymru.

## 3. Ymrwymiad ar y cyd

3.1 Ni fydd awdurdodau claddu Cymru yn codi unrhyw ffioedd mewn perthynas â chladdu neu amlosgi plentyn, a ddiffinnir at y dibenion hyn fel person dan 18 oed.

3.2 Mae'r ymrwymiad hwn yn berthnasol i'r ffioedd cyffredinol sy'n cael eu codi gan awdurdodau claddu parthed:

---

[1] Dan Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, 'awdurdod claddu' yng Nghymru yw Cyngor Sir neu Fwrdeistref Sirol, neu Gyngor Tref neu Gymuned. Yn y Memorandwm hwn, mae "awdurdodau claddu" yn cyfeirio at gynghorau sir, cynghorau bwrdeistref sirol a chynghorau tref a chymuned yng Nghymru.

i. *Amlosgi* person dan 18 oed (gan gynnwys babanod marwanedig a gweddillion ffetysau);

ii. *Claddu* person dan 18 oed (gan gynnwys babanod marwanedig a gweddillion ffetysau);

iii. *Hawliau claddu unigryw*[2], lle bo'r gofyn;

iv. Unrhyw *ffioedd eraill* yn ymwneud yn uniongyrchol â chladdu neu amlosgi person, neu weddillion person wedi'i amlosgi, dan 18 oed (er enghraifft, y ffioedd sy'n cael eu codi am ganiatâd i godi cofeb).

3.3 Bydd awdurdodau claddu yn ildio'r ffioedd sy'n cael eu disgrifio yn adran 3.1 a 3.2 dan yr holl amgylchiadau.

3.4 Nid yw'r ymrwymiad yn yr adran hon yn ymwneud â chostau fel (ymysg eraill) cost cofeb, ffioedd ymgymerwr angladdau, blodau neu eirch.

## 4. Cyllid

4.1 Er mwyn cydnabod y goblygiadau ariannol sydd ynghlwm wrth ildio'r ffioedd sy'n cael eu disgrifio yn adran 3, bydd Llywodraeth Cymru, tra bod y Memorandwm hwn mewn grym, yn rhyddhau £600,000 yn flynyddol i'w ddosbarthu ymysg prif gynghorau Cymru sydd wedi cytuno i gydymffurfio â'r ymrwymiad yn adran 3.

4.2 Mae darpariaeth Llywodraeth Cymru o'r cyllid hwnnw i'r prif gynghorau yn ddibynnol ar sefydlu amodau grant boddhaol yn gyntaf.

4.3 Bydd y prif gynghorau'n dosbarthu symiau priodol i awdurdodau claddu eraill a darparwyr gwasanaethau perthnasol eraill yn eu hardal, sydd wedi cytuno i fabwysiadu'r ymrwymiad a welir yn adran 3.

4.4 Gall y prif gynghorau osod unrhyw amodau y maent yn eu hystyried yn briodol ar ddarparu'r cyllid hwn i awdurdodau claddu eraill a darparwyr y gwasanaethau perthnasol eraill.

---

[2] Ystyr Hawliau Claddu Unigryw yw hawliau unigryw, drwy weithred, y perchennog cofrestredig i benderfynu pwy gaiff ei gladdu neu ei goffáu yn y bedd dan sylw; bydd yr hawliau unigryw o'r fath yn para am gyfnod cyfyngedig wedi’i bennu gan y Cyngor.

Un Llais Cymru One Voice Wales

Llywodraeth Cymru Welsh Government

CLILC • WLGA

**5. Hyd / Adolygu**

5.1 Gall y Memorandwm hwn gael ei ddiwygio drwy gytundeb rhwng y Partïon, gan weithredu drwy swyddogion awdurdodedig.

5.2 Bydd y Memorandwm yn dod i rym ar ôl cael llofnod ar ran y Partïon, ac fe fydd yn parhau i fod mewn grym nes y bydd unrhyw un o'r Partïon yn rhoi terfyn arno.

5.3 Gall unrhyw un o'r Partïon roi terfyn ar y Memorandwm drwy roi o leiaf 3 mis o rybudd yn ysgrifenedig i'r Partïon eraill.

5.4 Bydd gweithrediad y Memorandwm yn cael ei adolygu cyn blwyddyn ariannol 2020/21.

**6. Statws y Memorandwm**

6.1 Nid oes bwriad i'r Memorandwm hwn rwymo mewn cyfraith, ac ni fydd unrhyw rwymedigaethau na hawliau cyfreithiol yn codi rhwng y Partïon yn sgil y Memorandwm hwn.

____________________ Dyddiad: 23/11/2017
(Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus, ar ran Llywodraeth Cymru)

____________________ Dyddiad: 23/11/2017
(Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, yn cynrychioli prif gynghorau Cymru)

____________________ Dyddiad: 23/11/2017
(Un Llais Cymru, yn cynrychioli cynghorau cymuned a thref Cymru)